

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU**  
**a gynhaliwyd Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy**  
**fideo-gynadleddaddydd Iau, 5 Hydref 2023****Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion,**  
**Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynadledda**

**YN BRESENNOL:** , y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol:** Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrywyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democraidaidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau

(9:30am-10:05am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Evans a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim.

**3 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 yn gywir.

Materion yn codi

Dim

**4 Gwybodaeth Cyffredinol**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch y Diweddariad Cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn adolygu a thrafod y gwaith o weithredu Deddf Trwyddedu 2003 a'r cynnydd a wneir o ran y ddeddf, ynghyd ag unrhyw faterion cysylltiedig sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor penodol hwn. Roedd y materion hyn yn cynnwys Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad canlynol:-

- **Rhan A: Deddf Trwyddedu 2003 – Materion Cysylltiedig**
  - Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)
  - Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG)
    - 'Big Tribute Festival', Aberystwyth 25 – 27 Awst 2023
    - Gŵyl Tân yn y Mynydd, Abermagwr, Aberystwyth: 1 – 5 Mehefin 2023

Canllawiau Diwygiedig – Adran 182 (Deddf Trwyddedu 2003)

- **Rhan B: Deddf Gamblo 2005 – Materion Cysylltiedig**

- Papur Gwyn – Adolygu'r Ddeddf Gamblo

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr am gynnwys yr adroddiad, CYTUNWYD:-

(i) i nodi'r adroddiad er gwybodaeth; ac

(ii) y dylai'r holl ymatebion i bapurau ymgynghori gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor fel y gallai'r Aelodau eu hystyried.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar  
Dydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_